# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 18 Tachwedd 2015

Amser: Times Not Specified

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3300

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Christine Chapman AC (Cadeirydd)<br>Peter Black AC<br>Alun Davies AC<br>John Griffiths AC<br>Bethan Jenkins AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Mike Hedges AC<br>Mark Isherwood AC<br>Gwyn R Price AC<br>Rhodri Glyn Thomas AC |
| Tystion: | Ken Skates AC, Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth<br>Natasha Hale, Llywodraeth Cymru<br>Dr Ruth McElroy, Prifysgol De Cymru |

| | |
|---|---|
| | John Geraint, Cyfarwyddwr Creadigol, Green Bay<br>Angela Graham, Sefydliad Materion Cymreig<br>Professor Tom O'Malley, Prifysgol Aberystwyth |
| Staff y Pwyllgor: | Sarah Beasley (Clerc)<br>Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)<br>Robin Wilkinson (Ymchwilydd) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 395KB) Gweld fel HTML (444KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gwenda Thomas AC a Jocelyn Davies AC. Dirprwyodd John Griffiths a Bethan Jenkins eu rhan yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

## 2 Ymchwiliad i Adolygiad Siarter y BBC: sesiwn dystiolaeth 5 - Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Ken Skates AC, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
- Natasha Hale, Dirprwy Gyfarwyddwr Sectorau a Busnes, Llywodraeth Cymru

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r Pwyllgor:

- Barn Llywodraeth Cymru ar p'un a yw'r BBC wedi ymateb yn ddigonol i argymhellion Adroddiad King;
- manylion am waith Panel Cynghori ar Ddarlledu Llywodraeth Cymru, a'r allbynnau ohono;
- yr ohebiaeth sy'n ymwneud â galwad Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu cyllideb S4C;
- y cyllid ar gyfer BBC Alba a'r gymhariaeth â'r cyllid ar gyfer S4C;

- ffigurau sy'n ymwneud â'r cwmnïau cynhyrchu a chadwyni cyflenwi sydd wedi elwa o symud cynhyrchu allan o Lundain i Gymru;
- y sylwadau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud o ran y newidiadau arfaethedig i'r Telerau Masnach rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a chynhyrchwyr annibynnol;

  yr ohebiaeth yn ymwneud â phryderon Llywodraeth Cymru ynghylch y newidiadau i ffi'r drwydded ym mis Gorffennaf 2015

## 3 Ymchwiliad i Adolygiad Siarter y BBC: sesiwn dystiolaeth 6

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Dr Ruth McElroy, Prifysgol De Cymru
- Dr John Geraint, Green Bay Media
- Angela Graham, Sefydliad Materion Cymreig
- Yr Athro Tom O'Malley, Prifysgol Aberystwyth

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 6 Ymchwiliad i Adolygiad Siarter y BBC - trafod y dystiolaeth a ddaeth i law yn sesiynau 5 a 6

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitemau 2 a 3.

## 7 Y Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): trefn y drafodaeth ar gyfer trafodion Cyfnod 2

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn y drafodaeth ar gyfer trafodion Cyfnod 2, sef: Adran 3, Atodlen 1, adrannau 4 i 22, adran 2, adran 24, Atodlen 2, adrannau 25 i 32, adran 23, adrannau 33 i 41, adran 1, a'r Teitl Hir.

## 8 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Busnes – Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad

8.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Pwyllgor Busnes ar Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad.